Llinellau Amser Worktribe

Bwriedir i'r rhain gael eu defnyddio ochr yn ochr â chalendrau academaidd presennol i gefnogi busnes fel arfer wrth ddatblygu cwricwla. Mae codau lliw i brosesau gwahanol, er enghraifft mae'r prosesau sydd eu hangen ar gyfer recriwtio mewn glas.

| Dyddiad Cwblhau | Gweithredu | Cyfrifoldeb | Proses Academaidd | Proses Gwasanaethau Proffesiynol |
|---|---|---|---|---|
| 31 Ionawr 2024 | **Cadarnhau strwythurau cyrsiau israddedig ac ôl-radd hyfforddedig** ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf i weld a oes angen unrhyw newidiadau sylweddol i'r ddarpariaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn Ysgolion lle addysgir 'modiwlau bob yn eilflwydd'. | Staff academaidd – arweinydd y rhaglen a'r modiwl. | Ar lefel rhaglen a fydd y modiwlau a addysgir ym mhob semester yn newid? A fydd newidiadau i'r dull cyflwyno neu i'r modiwlau a addysgir? Ystyried addasiadau i fodiwlau megis newidiadau i elfennau asesu i gyfrif am fwy na 50% o gyfanswm y radd. | Bydd yr Uned Gwella Ansawdd yn cysylltu â Chyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu a Chyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu Colegau gydag e-bost i atgoffa yn syth ar ôl dychwelyd o wyliau'r Nadolig.<br><br>Yr Uned Gwella Ansawdd i asesu a derbyn newidiadau ar lefel rhaglen. Os cynigir newidiadau mawr i fodiwlau (mwy na 50% o asesu, deilliannau dysgu modiwlau ac ati) bydd angen i'r Panel Modiwlau Newydd ystyried modiwlau ym mis Chwefror.<br><br>Y Swyddfa Gynllunio yn creu catalog cyrsiau ar gyfer datganiad statudol HESA.<br>Marchnata yn creu tudalennau cyrsiau is-radd ar gyfer y flwyddyn mynediad ddilynol. |
| | **Cymeradwyo modiwlau newydd -** ar gyfer modiwlau newydd annibynnol a gymeradwyir | Staff academaidd – arweinydd modiwl | Modiwlau newydd yn cael eu mewnbynnu i WT i'w cymeradwyo | Bydd yr Uned Gwella Ansawdd yn cysylltu â Chyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu a Chyfarwyddwyr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | mewn cynlluniau adolygiadau blynyddol gan y CQADG neu mewn achosion eithriadol. | | trwy broses modiwl newydd. | Addysgu a Dysgu Colegau gydag e-bost i atgoffa yn syth ar ôl dychwelyd o wyliau'r Nadolig.<br><br>Bydd y Swyddfa Gynllunio yn dyrannu cod y modiwl ar ôl cyrraedd y cam cymeradwyo cynllunio. Staff yr Uned Gwella Ansawdd cynnal gwiriadau cychwynnol a pharatoi pecynnau dilysu ar gyfer panel modiwlau newydd, ail wythnos Chwefror. |
| 6 Mawrth 2024 | **Cymeradwyo modiwl newydd** – ar gyfer modiwlau annibynnol | Aelodau CPADG | Ystyried cynllun modiwl, cyngor a chymeradwyaeth. | Yr Uned Gwella Ansawdd i gymeradwyo modiwlau newydd neu anfon yn ôl i'w diwygio drwy broses Worktribe. |
| 27 Mawrth 2024 | **Cymeradwyo modiwlau newydd:** Newidiadau i fodiwlau newydd a wnaed gan arweinydd y modiwl mewn ymateb i adborth gan CPADG. | Staff academaidd mewn ymateb i sylwadau gan y panel. | | Uned Gwella Ansawdd i wirio diwygiadau a chymeradwyo os cânt eu gwneud. |
| 28 Mehefin 2024 | **Recriwtio myfyrwyr ôl-radd hyfforddedig:** Gwybodaeth rhaglen ôl-raddedig gyfredol i'w chwblhau yn Worktribe ar gyfer y flwyddyn ganlynol. | Arweinydd y rhaglen | | Y Swyddfa Gynllunio yn creu catalog cyrsiau ar gyfer datganiad statudol HESA.<br>Marchnata yn creu tudalennau cyrsiau ar gyfer y flwyddyn mynediad ddilynol. |
| 28 Mehefin 2024 neu yn syth ar ôl y prif | **Adolygiad academaidd blynyddol** o fodiwlau. Trafodaethau | Staff academaidd | Trafodaethau ar sail tystiolaeth ar wella addysgu trwy Fwrdd Astudiaethau | Yr Uned Gwella Ansawdd i asesu a derbyn newidiadau seiliedig ar welliant. mân newidiadau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| fwrdd arholi. | Byrddau Arholi gan ddefnyddio data perfformiad myfyrwyr, adborth myfyrwyr a sylwadau llafar arholwyr allanol i baratoi ffurflenni QA2 yn FyMangor.<br><br>Diweddaru Worktribe gyda'r newidiadau arfaethedig. | | arbennig yn yr wythnos yn dilyn y bwrdd arholi allanol neu drwy ryw ddull cyfatebol (pwyllgor addysgu a dysgu). | Dylid gwneud newidiadau mawr i'r dull cyflwyno a newid y math o asesiad o fwy na 50% o'r modiwl yn gynharach yn y flwyddyn, ond byddant yn cael eu codi drwy'r broses QA1 lle mae tystiolaeth dda bod angen y newid. |
| 31 Gorffennaf 2024 | **Adolygiad a**cademaidd blynyddol o raglenni: mae arweinydd y rhaglen yn defnyddio ffurflenni QA2, adborth gan arholwyr allanol ac adborth myfyrwyr a pherfformiad myfyrwyr ar lefel rhaglen i drafod a drafftio QA1 ac yn trosglwyddo'r rhain i Bennaeth yr Ysgol.<br><br>Diweddaru gwybodaeth rhaglen yn Worktribe. | | Ysgolion i gael trafodaethau ar ddrafft terfynol QA1 *cyn* cyflwyno i Gyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu'r Coleg. | Mae'r Uned Gwella Ansawdd wedi cyfleu'r disgwyliad y bydd sylwadau ac adroddiadau llafar arholwyr allanol yn gyson ac wedi lleihau'r amser dychwelyd disgwyliedig i 3 wythnos,<br>Pan dderbynnir adroddiadau arholwyr allanol, bydd yr Uned Gwella Ansawdd yn eu hanfon yn uniongyrchol i'r Ysgol. Dylai hyn fod o fewn mis ar ôl y Bwrdd Arholi Allanol. |
| 30 Awst 2024 (argymhellir dechrau ym mis Mehefin) | **Dilysu Rhaglen Newydd:** cwblhau cam Cynnig Rhaglen y llif gwaith yn Worktribe am Gymeradwyaeth Strategol (mynediad ymhen 24 mis). | Arweinydd y Rhaglen a Phenaethiaid Ysgolion | Meincnodi yn erbyn y sector, trafodaethau gyda marchnata ar y galw gan fyfyrwyr, ymgysylltu â rhanddeiliaid. | Y swyddfa gynllunio yn cynnal gwiriadau i'w cwblhau ac yn paratoi cynigion ar gyfer cymeradwyaeth strategol. |
| Wythnos 15 Medi 2024 | **Adolygiad Academaidd Blynyddol:** CQADG yn ystyried cynlluniau adolygu blynyddol gan gynnwys gwelliannau arfaethedig yn WT. | Aelodau'r CQADG ar gyfer QA1 a bennwyd iddynt. | Arfarnu cwmpas a phriodoldeb adfyfyrio ar ddata, cwblhau cynllun y llynedd, eglurder y cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod a | Staff yr Uned Gwella Ansawdd yn cymeradwyo newidiadau i raglenni yn seiliedig ar gymeradwyaeth y Grŵp Gwella Ansawdd. Staff yr Uned Gwella |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | newidiadau a awgrymwyd. | Ansawdd yn rhoi adborth ar arferion da, anghenion hyfforddi a meysydd i'w gwella i Bennaeth yr Ysgol. |
| 2 Rhagfyr 2024 ar gyfer mynediad myfyrwyr ymhen 22 mis (UCAS) neu 10 mis (tu allan i UCAS).<br><br>*Sylwch: y dyddiad hwn yw 29 Ebrill 2024 ar gyfer mynediad Ionawr a Mawrth.* | **Dilysu rhaglen newydd.** Mewnbynnu strwythurau a modiwlau i Worktribe ar gyfer y rhaglenni newydd hynny y cymeradwywyd amlinelliad ar eu cyfer. | Staff academaidd | Rhaid i gyflwyniadau fod yn gyflawn, er enghraifft rhaid diffinio deilliannau dysgu'r rhaglen, cytuno ar y strategaeth a'r strwythur asesu a'u nodi'n llawn. Rhaid i'r holl fodiwlau a gynigir gael eu mewnbynnu neu eu cysylltu, chwblhau meini prawf derbyn a manylion cyflwyno. | Yr Uned Gwella Ansawdd i ychwanegu cod rhaglen ac UCAS |
| **Proses Ddilysu Ychwanegol ar gyfer ailddilysu lefel pwnc 5-6 mlynedd** | | | | |
| Sicrhau bod gwybodaeth rhaglen yn cael ei rhoi yn WT 12 wythnos cyn dilysu. | **Mewnbynnu** **r**haglen i'w hailddilysu: Arweinydd y rhaglen. Pennaeth Ysgol a Chyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu yn cymeradwyo. | | | Yr Uned Gwella Ansawdd yn cynnal gwiriadau manwl er mwyn cwblhau, ymholiadau, pennu i lwybr cymeradwyo. Mae 12 wythnos yn golygu y gellir ceisio cyngor arbenigol ac ymateb iddo cyn y panel yn achos y CPADG fel y gellir cymeradwyo'n gyflym. Mae angen amser ar aelodau paneli i ystyried ailddilysu pynciau cyfan a chael yr ysgol i ymateb i ymholiadau. |

**Myfanwy Davies**

**Pennaeth Gwella Ansawdd**

**09/03/23**